



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

## “PA MOR GYMHELETH YW DIGIDEIDDIO MEWN TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL?”

**Marinos Ioannides, Athro Cynorthwyol, Cadeirydd Maes Ymchwil Ewropeaidd  
“MNEMOSYNE”, Labordy Ymchwil Treftadaeth Ddigidol, Prifysgol Technoleg Cyprus,  
Limassol**

Digideiddio 3D yw'r dull mwyaf heriol o ran dogfennu'r gorffennol. Mae gwaith ymchwil a datblygiadau blaenorol yn y maes hwn yn dangos yn glir nad oes math o e-ddogfennau 3D cyfannol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a'r data perthnasol ar gael eto, oherwydd diffyg safonau rhyngwladol.

Pryder uniongyrchol ar fan cychwyn prosiect dogfennu 3D nodweddiadol yw penderfynu ar lefel cymhlethdod gwrthrych, strwythur neu safle, gan roi sylw i faterion ymarferol fel dimensiwn gofod, ansawdd yr arwyneb, y deunyddiau a'r amgylchedd yn gyffredinol. Bydd yr wybodaeth a geir yn pennu faint o ymdrech ac amser cynhyrchu fydd yn angenrheidiol, yn ogystal â'r dull cofnodi. Yn ddelfrydol, fodd bynnag, byddai'r dull cofnodi arfaethedig yn cynnwys amrywiaeth ehangach o faterion perthnasol fel nodweddion arwyddocaol estheteg, hanes, cymdeithas a'r amgylchedd, ymhlith nodweddion eraill. Byddai'r wybodaeth hon, yn ogystal â manylion y dechnoleg recordio a'r cofnod dimensiynol, yn disgrifio'r gwrthrych neu'r safle yn fwy cynhwysfawr a manwl.

Nod gweithdy Gorffennol Digidol 2021 fydd rhoi sylw i “gymhlethdod” ym maes digideiddio 3D, drwy wahodd arbenigwyr o wahanol feysydd Treftadaeth Ddiwylliannol i drafod cwestiynau allweddol fel: a) Beth yw heriau arolygon 3D mewn Treftadaeth Ddiwylliannol? b) Ym mha ffyrdd mae'r dryswch yn diffinio cymhlethdod terfynol y broses 3D? c) Pa

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8<sup>ed</sup> – 12<sup>ed</sup> Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

safonau sydd ar goll ar gyfer modelu 3D mewn Treftadaeth Ddiwylliannol a diogelu modelau 3D yn y tymor hir?



3D models and exploded HBIM model of the World Heritage site of Asinou church in Nikitari, Cyprus

## Bywgraffiad

Dr. Ioannides yw cyfarwyddwr Labordy Treftadaeth Ddigidol Prifysgol Technoleg Cyprus, Limassol. Ers 2013, mae nifer o brosiectau'r UE wedi cael eu dyfarnu i'r Labordy (cyfanswm y gyllideb: 7.5M Ewro). Yn 2017 cafodd ei Labordy y fraint o fod yn Gadeirydd UNESCO ar Dreftadaeth Ddiwylliannol Ddigidol, yr unig Gadeiryddiaeth yn y Byd ym meysydd Addysg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Cafwyd Cadeiryddiaeth Maes Ymchwil Ewropeaidd ar Dreftadaeth Ddigidol yn 2018, o dan Raglen Ehangu H2020, gyda chymorth ariannol gwerth 2.5M Ewro er mwyn sefydlu canolfan Ragoriaeth ranbarthol yn Cyprus.